

## DISGRIFIAD SWYDD

|                      |                                             |
|----------------------|---------------------------------------------|
| <b>Teitl y Swydd</b> | <b>Asesydd</b>                              |
| <b>Gradd:</b>        | <b>Graddfa 6</b>                            |
| <b>Yn adrodd i:</b>  | <b>Cydlynnydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop</b> |

---

### Diben y swydd

- Cefnogi unigolion drwy eu cymhwyster TAQA.
- Cynhyrchu cysylltiadau busnes lleol/rhanbarthol er mwyn cynyddu'r gweithgareddau dysgu yn seiliedig ar waith ac i gynnal eich llwyth achosion eich hunan.
- Bydd deiliad y swydd yn gweithio o dan gyfarwyddyd Cydlynnydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop

### Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Allweddol

- Hyrwyddo a chyflawni gweledigaeth, gwerthoedd ac ymddygiadau corfforaethol y Coleg.
- Hyrwyddo cysylltiadau proffesiynol positif gyda chwsmeriaid gan gynnwys staff a dysgwyr.
- Hyrwyddo cynllun strategol y Coleg a'i werthoedd a bod yn sbardun ar gyfer newid a menter.
- Bod yn falch o Goleg y Cymoedd a chwarae rhan weithredol mewn diwylliant "Un Coleg" sy'n canolbwyntio ar gryfhau'r cymoedd drwy addysg, sgiliau a hyfforddiant rhagorol.
- Bod yn rhagweithiol, yn hyblyg a gallu addasu er mwyn ymateb i anghenion y busnes a marchnadoedd sy'n newid er mwyn llwyddo.
- Datblygu, cyflwyno ac asesu gweithgareddau dysgu yn seiliedig ar waith yn unol â chymwyseddau personol.
- Cymryd rhan mewn prosesau recriwtio, asesu cychwynnol a sefydlu.
- Monitro cynnydd a pherfformiad dysgwyr i sicrhau bod y targedau'n cael eu cyrraedd.
- Cymryd rhan yn y broses ddilysu fewnol yn eich maes arbenigedd.
- Sicrhau bod dysgwyr wedi'u cofrestru ar gyfer cymwysterau priodol ac yn cwblhau eu cymwysterau o fewn amserlenni a ddyrannwyd.
- Cymryd rhan yn fframwaith ansawdd y Coleg i sicrhau bod y safonau uchaf o ran hyfforddi ac asesu yn cael eu cyflawni a'u cynnal.

- Cwblhau yr holl ddogfennau priodol o ran Prosiectau SO1/SO2 Uwchsgilio @ Waith Cronfa Gymdeithasol Ewrop, o fewn amserlenni a chydymffurfio â gofynion archwilio.
- Marchnata'r rhaglenni i gyflogwyr, darpar ddysgwyr ac asiantaethau allanol.
- Cynhyrchu gwybodaeth gywir ac amserol i Gydlynnydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop am dargedau a pherfformiad.
- Cefnogi Cydlynnydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop i sicrhau bod y targedau ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu cyflawni.
- Cynorthwyo Cydlynnydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop i gynhyrchu adroddiadau hunanasesu.
- Cefnogi'r Rheolwr Datblygu Busnes i ddatblygu strategaethau i gynnal hunaniaeth gref yn fewnol ac yn allanol i'r Coleg.
- Cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau ac arferion Adnoddau Dynol.
- Cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau ac arferion Iechyd a Diogelwch.
- Cydymffurfio â Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol

### **Gweithgarwch Ychwanegol**

- Cydymffurfio'n weithredol â Pholisi Cyfle Cyfartal y Coleg.
- Cymryd rhan ym mhroses Rheoli Perfformiad ac Adolygu'r Coleg a chyfrannu ati.
- Mynychu cyfarfodydd staff a chyfarfodydd dysgu a datblygu yn ôl yr angen.

Bydd gan yr holl staff a gyflogir yng Ngholeg y Cymoedd gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles myfyrwyr.

Cyflawni dyletswyddau eraill fel sy'n rhesymol ofynnol o dro i dro, naill ai yn eich prif fan gweithio neu ar safle arall y Coleg, sy'n gymesur â gradd a chyfrifoldebau eich swydd.

### **Cytunwyd gan Ddeiliad y Swydd:**

#### **Dyddiad:**

**Cydnabyddir y gall dyletswyddau a chyfrifoldebau pob swydd newid o dro i dro a gellir newid disgrifiadau swydd mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd i adlewyrchu'r newidiadau hynny sy'n gymesur â gradd a chyfrifoldebau'r swydd.**

**Cefnogir y swydd hon gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.**